**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**
Cofnodion o gyfarfod hybrid y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd
Dydd Iau, 24 Chwefror 2022 am 3.00 pm

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol: -

**Siambr y Cyngor**
Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cynghorydd R Williams
Y Cynghorydd W Lewis
Y Cynghorydd G Hughes

**Zoom**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd W Owen | Y Cynghorydd J Barton |
| Y Cynghorydd J Williams | Y Cynghorydd S Powderhill |
| Y Cynghorydd D Williams | |

## Swyddogion oedd yn bresennol: -

**Siambr y Cyngor**
Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr C Jones, Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Mr A Rees, Uwch Beiriannydd

**197 CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol D. Grehan a P. Jarman.

**198 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

**199 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**200** **DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

**201** **COFNODION 13.01.22**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2022 yn rhai cywir.

**202** **CAIS RHIF: 21/1081**

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio'r cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafodaeth hir ynglŷn â'r cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar atodi nodyn gwybodaeth i'r caniatâd cynllunio mewn perthynas â'r pryderon ynghylch cael gwared ar y gwrychoedd.

**203** **CAIS RHIF: 21/1095**

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio'r cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**204** **CAIS RHIF: 21/1456**

Cyflwynodd Pennaeth Materion Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**205** **CAIS RHIF: 21/1474**

Cyflwynodd Pennaeth Materion Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**206** **CAIS RHIF: 21/1475**

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio'r cais i'r Pwyllgor ac yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar gwblhau cytundeb adran 106 sy'n golygu mai dim ond un o'r ddau ganiatâd cynllunio, naill ai 20/1243/10 (Trosi ysgubor i greu 2 uned Air B&B) neu 21/14751/0 (y cais cyfredol am 1 uned Air B&B â 2 ystafell wely) y mae modd ei weithredu.

**207** **CAIS RHIF: 21/1498**

Cyflwynodd Pennaeth Materion Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**208 CAIS RHIF: 21/1546**

Cyflwynodd Pennaeth Materion Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais i'r Pwyllgor ac yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu yn ddarostyngedig i gytundeb Adran 106 i sicrhau bod yr anheddau'n cael eu sefydlu a'u cynnal a'u cadw fel unedau fforddiadwy am byth, i'r diben parhaus o ddiwallu anghenion tai lleol a nodwyd.

**209 CAIS RHIF: 21/1574**

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio’r cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**210 CAIS RHIF: 22/0114**

Roedd Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G Hughes ac W Lewis wedi datgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas â Chais 22/0114 gan adael y cyfarfod ar gyfer yr eitem yma:

"Mae gen i berthynas agos gyda'r ymgeisydd, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Norris"

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio'r cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**211 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 31/01/2022 – 11/02/2022.

**Daeth y cyfarfod i ben am 3.50 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**